O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1417 (Cy. 173)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Lleoliadau Amrywiol rhwng Chwarel Rhaeadr Gwy a Llangurig, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*28 Mai 2012*
Yn dod i rym	*6 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mehefin 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Lleoliadau Amrywiol rhwng Chwarel Rhaeadr Gwy a Llangurig, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 6 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A470 rhwng Chwarel Rhaeadr Gwy a Llangurig yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.